

Cyngor Cymuned Llanelian (264)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Ebrill 14, 2015 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Hefina Williams Carol Whitaker T Elfyn Hughes
John Griffiths Thomas D Jones Cyng Wil Hughes
PCSO Katy Hughes

Ymddiheuriadau: Dafydd Griffiths Helen Hughes David Gerrard
Glenys Jones Gordon Hayes Cyng Richard Jones

1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan Hefina Williams a chroesawyd pawb i'r cyfarfod

2 Datgan Diddordeb

Cyng. Wil Hughes - materion cynllunio

3 Heddlu Gogledd Cymru

Estynnwyd croeso i PCSO Katy Hughes, a diolchwyd iddi am ddod i gwrdd â'r aelodau. Deallwyd ei bod wedi bod yn gwneud peth gwaith a phobl ifanc yn yr ardal, a bod cwynion bod pobl ifanc yn chwarae pêl droed yn y pentref. Deallwyd ganddynt nad ydy eu rhieni yn rhy hapus iddynt gael chwarae ym Maes Llwyfo gan fod y ffens yn rhy isel. Fe ofynnodd PCSO Hughes am yr hawl i geisio am arian yn enw'r Cyngor i gael gosod ffens uwch o amgylch y cae. Nid oedd gwrthwynebiad, ac roedd yr aelodau yn falch iawn o gefnogaeth yr heddlu. Cynigwyd bod PCSO Hughes yn mynd ymlaen a'r gwaith gan T Elfyn Hughes, eiliwyd gan TD Jones.

Cafwyd crynodeb gan Carol Whitaker o'r cyfyngiadau a gafodd eu rhoi yn eu lle gan y Cyngor Sir wrth ddatblygu'r maes chwarae o'r newydd. Un o'r rhain oedd maint y ffens, ond yn amlwg mae angen edrych arno eto o ran diogelwch a chyda cefnogaeth yr heddlu.

Nodwyd bod peth difrod yn y maes chwarae gyda phobl ifanc yn ceisio codi'r goliau a bwrdd picnic sydd wedi ei osod i'r llawr a choncret.

Cafwyd gwyn yn ddiweddar am sbwriel yng Nghae Chwarae Lon Tyddyn Waen, deallwyd bod y Clwb Ieuenctid eisoes wedi bod yno i dwtio, a bydd yr heddlu yn parhau a'r gwaith gyda phlant yr Ysgol.

Diolchwyd i PCSO Katy Hughes am ei hamser, ac am fod mor weithgar yn y gymuned.

4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig T Elfyn Hughes, eilio Carol Whitaker.

5 Materion yn Codi

5.1 Lon Dywyll – deallwyd bod y gwaith i'w gwblhau i wyneb y ffordd ym mis Mai/Mehefin.

6 Cynllunio

6.1 Ceisiadau –

Cafodd y ceisiadau canlynol eu cyflwyno a'u trafod fel y ganlyn –

- Capel Bosra - cefnogol, ond tynnu sylw'r swyddogion bod rhaid edrych am gapasiti system carffosiaeth y pentref wrth ddatblygu cartrefi newydd.
- St Eilian Cottage – cefnogol

6.2 Penderfyniadau -

Ni dderbyniwyd penderfyniadau.

7 Materion Ariannol

7.1 Adroddiad Blynnyddol - dosbarthwyd copi drafft o'r taliadau a'r derbyniadau ynghyd a'r prif wahaniaethau. Cafwyd crynodeb gan y clerch o gynnwys yr adroddiadau, ac esboniwyd y gwahaniaethau. Diolchwyd i'r Clerch am ei gwaith i baratoi'r cyfrifon a'u cyflwyno. Cymeradwywyd y dogfennau i'w cyflwyno i'r archwiliwr mewnol.

7.2 Archwiliad mewnol - cytuno yn unfrydol penodi John Roberts i gwblhau'r archwiliad mewnol eto eleni. Bydd yr archwiliad yn cymryd lle 12/5/2015.

7.3 Archwiliad Allanol - cafwyd wybod gan y Clerch bod UHY Hacker Young wedi dewis Cyngor Cymuned Llanelian am archwiliad mwy trwyadl eleni a'u bod wedi gofyn am weld copïau o nifer o bolisiau a dogfennau swyddogol y Cyngor.

CET

CET

CET

- 7.4 Trafod gofynion yr archwiliad - dosbarthwyd adroddiad wedi ei gwblhau gan y Clerc yn amlinellu gweithgareddau'r Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf yn ymwneud a rheolaeth y Cyngor. Cymeradwywyd y ddogfen gan nodi bod y Cyngor yn cymryd nifer o gamau i leihau risg a sicrhau bod gweithgareddau'r Cyngor yn gyfreithiol ac yn cefnogi'r gymuned leol.
- 7.5 Taliadau - Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
GL Jones £468.10
Clerc – Costau £244.93
Clerc – Cyflog £1369.44
HMRC - £96.33
- Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â GL Jones i wneud y see-saw yn ddiogel, maent wedi tynnu rhannau ohono ond mae pryder ei fod yn fwy peryglus rŵan nac o'r blaen. CET
- Nodwyd bod cais am arian gan Horizon tuag at y Cae Chwarae wedi bod yn llwyddiannus. Cytuno dylid cadarnhau see-saw newydd gan Playquest tra byddent yn gosod yr arwyneb diogelwch. Cynnig T Elfyn Hughes, eilio TD Jones. CET
- 7.6 Cais am arian - daw cais gan Gymdeithas y Leinws am gefnogaeth ariannol. Cytuno dylid ei drafod pan fydd mwy o aelodau yn bresennol.
- 8 Mynwent**
- Mae'r Clerc wedi bod mewn cysylltiad â Huw Roberts (Cerrig Beddi) sydd wedi cadarnhau mai yn 2013 y gorffennodd y gwaith asesu risg ar fynwent Eilian. Dim ond pob pum mlynedd sydd angen gwneud y gwaith oni bai bod carreg yn cael ei adnabod yn beryglus. Cynigwyd bod y Clerc yn cysylltu yn ôl ag Roy Ashworth i gadarnhau hyn, ac i ofyn a oedd unrhyw feddi penodol yn codi pryder iddo. CET
- Mae'r Clerc hefyd wedi bod mewn cysylltiad â'r warden gwn i weld os oes modd cael arwyddion dim cwn ar gyfer y mynwentydd a'r caeau chwarae. Fe gynigodd Cyng. Wil Hughes y byddai hefyd yn cysylltu â'r warden.
- 9 Gohebiaeth**
- 9.1 Cylch Meithrin Penysarn – nodyn o ddiolch am rodd ariannol gan y Cyngor.
- 9.2 Rhifyn diweddaraf Clerks and Councils Direct
- 9.3 Gwybodaeth am ymgynghoriad i weithredu premiymau treth tai ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi. Cytuno ei roi ar yr agenna ar gyfer y cyfarfod nesaf.
- 9.4 Gwybodaeth am sesiynau agored Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud ag ardaloedd cadwraeth yn y môr.
- 9.5 Diweddariad gan Horizon am eu datblygiadau yn Nhregele.
- 10 Unrhyw Fater Arall**
- 10.1 Fe gadarnhaodd T Elfyn Hughes bod penderfyniad wedi ei wneud yn y cyfarfod yn Amlwch i ofyn i ymddiriedolwyr Cronfa Elusennol Môn ohirio gwerthu tir Shell Rhosgoch.
- 10.2 Swyddfa Bost Amlwch - deallwyd bod y swyddfa am gau, cytuno ysgrifennu at Gyngor Tref Amlwch i ddangos cefnogaeth ei gadw ar agor er lles y gymuned CET
- 10.3 Trafodwyd anghydfod yr aelodau a'r gwasanaeth a gynigir gan y cyngor sir. Mae aelodau o'r gymuned yn dod atynt fel cynrychiolwyr ac aelodau'r cyngor cymuned gyda phroblemau a phryderon, ond eto nid oes atebion i'w cael gan Langefni.
- 10.4 Ailgylchu ger y Bedol - gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau am y taliadau yr arferir eu cael am adnoddau ailgylchu yn y pentref. CET
- 10.5 Nodwyd bod carreg rydd ar y gamfa o Gapel Seilo hyd Graig Lwyd. CET
- 11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 12/5/2015**
Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.15 o'r gloch.